PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 23 TACHWEDD 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Lay a/ac Graham Thomas |

53 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

54 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

55 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020 fel gwir gofnod.

56 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro 2019-20 wedi'i gwblhau gan gynnwys yr adolygiad gan Archwilio Cymru. Mae'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn gyson â'r wybodaeth yn y Datganiad o Gyfrifon a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 22 Hydref 2020.

Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol, os caiff ei gymeradwyo, gael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad cau statudol, sef 1 Rhagfyr 2020.

PENDERFYNWYD:

- I gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1.

57 : CAPIO TALIADAU YMADAEL

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â'r rheoliadau a ddaeth i rym ar 4 Tachwedd 2020 sy'n capio taliadau ymadael yn y sector cyhoeddus.

Mae gwrthdaro rhwng y Rheoliadau Capio a'r rheoliadau CPLlL, os torrir y cap pan fydd aelod CPLlL yn 55 oed neu'n hŷn ac yn ymadael. Mae'r rheoliadau CPLlL yn dal i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod gymryd taliad o bensiwn heb ei leihau, ond mae'r Rheoliadau Capio'n atal y cyflogwr rhag talu'r gost straen lawn. Bydd angen i'r Awdurdod Gweinyddu benderfynu a ddylid talu pensiwn heb ei leihau yn unol â rheoliad 30(7) neu ddarparu'r opsiwn o naill ai bensiwn gohiriedig o dan reoliad 6(1) neu bensiwn gostyngedig ar unwaith o dan reoliad 30(5) yn unol ag argymhellion y Llywodraeth.

Mae unrhyw dâl diswyddiad posib a allai fod yn fwy na'r cap ymadael yn cael ei fonitro'n agos a bydd yn cael ei dynnu i sylw'r Swyddog Adran 151 a'r cyflogwr.

Mae gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod i arfer hepgoriad; ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y bydd hynny'n digwydd, er y disgwylir rhywfaint o wybodaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi:-

a) Y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Mae adroddiad diweddaru pellach i'w ddarparu, wrth i reoliadau perthnasol cael eu diwygio a/neu gyhoeddi canllawiau pellach.

b) Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, yn unol â'i awdurdod dirprwyedig (FS28), ac ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol ac ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd, yn pennu lefel y budd-daliadau sydd i'w talu hyd nes y caiff yr anghysondebau ymddangosiadol yn y gwahanol reoliadau a grybwyllir yn yr adroddiad hwn eu datrys.

## 58 : DATBLYGIADAU CRONFA TRACIO CARBON ISEL BLACKROCK

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i gyflwyno i'r Pwyllgor y sefyllfa ddiweddaraf yn esblygiad arfaethedig y Gronfa Tracio Carbon Isel. Cwblhawyd buddsoddiad o £235m i Gronfa Tracio Carbon Isel BlackRock ym mis Chwefror 2020.

Nid yw'r Gronfa Tracio Carbon Isel bresennol yn gweithredu gydag unrhyw sgriniau ond y cynnig fyddai cyflwyno sgriniau ar draws nifer o ardaloedd carbon-ddwys, pe bai trothwy refeniw o 5% yn fwy oni bai bod hyn yn cael ei wrthbwyso gyda chyfraniad refeniw o 40% o ynni adnewyddadwy. Dyma'r ardaloedd carbon-ddwys a fyddai'n cael eu sgrinio:-

i. Cronfeydd Tanwydd Ffosil;
ii. Glo Thermol;
iii. Olew a nwy confensiynol ac anghonfensiynol; a
iv. Chynhyrchu pŵer sy'n seiliedig ar olew a nwy.

Effaith amcanol y sgriniau yw gostyngiad yn nifer y stociau sydd wedi'u cynnwys yn y mynegai diwygiedig o dros 500. Amcangyfrifir bod yr effaith ar ddwysedd Allyriadau Carbon yn ostyngiad o 44% o'i gymharu â'r Gronfa bresennol a gostyngiad o 73% o'i gymharu â mynegai MSCI y Byd. Fodd bynnag, canlyniad cyflwyno'r sgriniau gwahardd fyddai cynnydd yn y gwall olrhain a fyddai'n cynyddu i 50 pwynt sylfaen (bps) o'i gymharu â'r 30 bps gyda'r Gronfa gyfredol. Byddai rhai costau pontio untro hefyd wrth i'r Gronfa gael ei hail-gydbwyso yn dilyn y gwaharddiadau. Fel arall, byddai'r risg a'r elw o'r Gronfa yn aros yr un fath.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi esblygiad y Gronfa Tracio Carbon Isel a gynigiwyd gan BlackRock; a

(2) mabwysiadu'r newidiadau arfaethedig i gyflwyno'r gwaharddiad ar Danwydd Ffosil.

59 : COFNODION Y BWRDD PENSIWN LLEOL

PENDERFYNWYD:

- I nodi cofnodion y Bwrdd Pensiwn Lleol

60 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

- Mae'r eitemau canlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 o Rannau 4 a 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972; a
- Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

61 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU ECWITI BYD-EANG

PENDERFYNWYD:

- Nodi a chymeradwyo'r argymhellion.

62 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

PENDERFYNWYD:

- Nodi cofnodion y Panel Cynghori ar Fuddsoddi

63 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

64 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gadarnhau.